Ionawr 2026

# Dogfen Esbonio'r Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol (tRESP)

NESO
National Energy System Operator


# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 3
- Sut i ddefnyddio’r Cyhoeddiad tRESP ..... 4
- Pwrpas a Dull gweithredu’r tRESP ..... 5
- Llywodraethu, Ymgysylltu a Sicrwydd ..... 7

Ein hallbynnau: ..... 9

Effaith, Dull Gweithredu a'r Camau Nesaf ..... 9
- Cyd-destun y Gwledydd a'r Rhanbarthau ..... 10
- Llwybrau ..... 13
- Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson ..... 17
- Angen Ynni Strategol ..... 19

Geirfa ..... 22



# Cyflwyniad

Pwrpas a Dull gweithredu'r tRESP

Llywodraethu, Ymgysylltu a Sicrwydd



# Sut i ddefnyddio'r Cyhoeddiad tRESP

Mae'r ddogfen esbonio hon ar gyfer tRESP yn rhoi trosolwg o'r gwaith y mae NESO wedi'i gwblhau ar gyfer y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol (tRESP). Mae'n amlinellu ei bwrpas a'i gwmpas, yn ogystal â sut rydyn ni wedi mynd ati i gyflawni mewn ffordd ddeinamig, gan ymgorffori'r adborth a gawsom gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid ar hyd y ffordd. Isod, rydym wedi rhoi canllawiau i ddarllenwyr ar sut i ddefnyddio'r ddogfen hon ochr yn ochr â'r cyhoeddiad tRESP ehangach. Os ydych chi'n brin o amser neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn agwedd benodol, rydyn ni hefyd wedi cynnwys Cwestiynau Cyffredin ar ddiwedd y ddogfen hon, sy'n disgrifio sut mae'r tRESP wedi delio â meysydd penodol.

1. Crynodeb Gweithredol.
2. Dogfen Esbonio'r tRESP.
3. Allbwn digidol ar gyfer pob un o'r 11 RESP, sy'n cynnwys Cyd-destunau Gwledydd a Rhanbarthau, safbwyntiau ar yr Anghenion Ynni Strategol (SEN) yn ogystal â disgrifiadau o'n Llwybrau.
4. Y dogfennau dyluniad manwl a'r methodolegau diweddaraf.
5. Data manwl ar y Llwybrau, sydd ar gael i'w lawrlwytho ar Borth Data Agored NESO.
6. Llyfr gwaith gwerthoedd o Ragdybiaethau Cynllunio Cyson (CPAs).
7. Rhestr ffynonellau ar gyfer Cyd-destun y Gwledydd a'r Rhanbarthau.
8. Ein deunydd ar gyfer yr ymgynghoriad ym mis Medi.

| Byddwn yn hoffi… | Dylech ddarllen… |
|---|---|
| **Trosolwg o'r tRESP, gan gynnwys yr hyn rydyn ni wedi'i gynhyrchu a sut** | Dogfen Esbonio a Chrynodeb Gweithredol y tRESP |
| **Deall y data a'r casgliadau ar gyfer eich gwlad neu'ch rhanbarth** | Yr allbwn digidol |
| **Deall ar lefel uchel pam y gwnaeth NESO rai penderfyniadau a beth oedd o fewn / y tu allan i gwmpas y tRESP** | Dogfen Eich Barn, Ein Hymateb, yn ogystal ag adran allbynnau'r ddogfen hon |
| **Deall mecaneg cydrannau'r tRESP a sut cawsant eu creu** | Methodolegau a dogfennau dyluniad manwl, yn ogystal â'r llyfrau gwaith / rhestrau ffynonellau sylfaenol. |

# Pwrpas a Dull gweithredu'r tRESP

Pwrpas y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol (tRESP) ydy helpu Ofgem a Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu (DNOs) i ddatblygu a sefydlu'r trydydd cyfnod Rheoli Pris Dosbarthu Trydan (ED3), ar gyfer 2028 i 2033.

Er mwyn bodloni'r amserlenni rheoli prisiau, mae'r tRESP wedi cael ei ddatblygu'n gyflym. Er mwyn i hyn ddigwydd, buom yn gweithio'n agos gydag Ofgem i bennu'r cwmpas a'r dull gweithredu[1,2].

Yn Chwefror 2025, pennwyd y cwmpas fel a ganlyn:

- Darlun cychwynnol o dirwedd ynni a blaenoriaethau pob gwlad a rhanbarth.
- Modelu llwybrau ynni tymor byr a hirdymor sy'n disgrifio'r cyflenwad a'r galw yn y dyfodol i lefel Pwyntiau Cyflenwi'r Grid (GSP) ac i wlad/rhanbarth RESP, gan gynnwys Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson i'w defnyddio gan weithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu.
- Adnabod y meysydd lle mae angen buddsoddi strategol (meysydd sy'n haeddu buddsoddiad cyn bo angen).

[1] Cwmpas y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol | Ofgem
[2] Llythyr Agored ynghylch cwmpas y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol, NESO, Mawrth 2025

Cafodd y cwmpas hwn ei lywio gan fframwaith ehangach y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP) a gyhoeddwyd gan Ofgem, yn ogystal â gan y gwersi a ddysgwyd o'r cyfnodau rheoli prisiau blaenorol, a lwyddodd i ganfod cyfleoedd lle gallai NESO hybu'r gwerth. Cafodd ein blaenoriaethau ar gyfer y tRESP hefyd eu llywio gan adroddiad y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (yr Awdurdod Seilwaith a Thrawsnewid Gwasanaethau Cenedlaethol erbyn hyn) ym mis Chwefror 2025 ar y rhwydweithiau dosbarthu trydan, a wnaeth argymhelliad i wneud y canlynol:

**Datblygu "dull cynllunio strategol mwy effeithiol i alluogi a lleihau risg buddsoddiadau rhagweithiol, gan gynnwys Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol sy'n unioni'r rhanddeiliaid ar hyd llwybr clir ar gyfer anghenion y rhwydwaith i'r dyfodol[3]."**

Un rhan allweddol o'r gwaith o greu cynlluniau strategol effeithiol yw sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y mae cynlluniau rhwydwaith ledled Prydain Fawr yn cael eu creu. Mae hyn, yn ei dro, yn cynorthwyo adolygiad rheoleiddio Ofgem, a bydd yn rhoi mwy o sicrwydd i weithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu pan fyddant yn cyflwyno eu cynlluniau busnes. Yn ystod yr ail gyfnod Rheoli Prisiau Dosbarthu Trydan (ED2), sy'n rhedeg hyd at fis Ebrill 2028, rhybuddiodd Ofgem fod gwahanol gwmnïau rhwydwaith yn defnyddio rhagdybiaethau anghyson wrth ragamcanu

[3] Rhwydweithiau dosbarthu trydan: Creu capasiti ar gyfer y dyfodol, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, Chwefror 2025

anghenion trydan i'r dyfodol. Fe wnaethant rybuddio, os bydd cwmnïau'n parhau i weithio oddi wrth wybodaeth anghyson, y gallai arafu cynnydd y Deyrnas Unedig i gyrraedd ei thargedau Sero Net. Fe wnaeth y pryder hwn siapio ein gwaith o ddylunio Llwybrau tRESP a Rhagdybiaethau cynllunio cyson a fydd yn golygu y bydd pob un o Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu, gan ddefnyddio allbynnau tRESP ynghyd â chanllawiau cynllunio busnes Ofgem, yn defnyddio dull llawer mwy cyson o ragamcanu'r galw ar eu rhwydweithiau yn ED3.

Her arall i ED2 oedd diffyg cysondeb yn y ffordd yr oedd DNO’s yn ymgorffori’r mewnbwn lleol yn effeithiol. Er bod rhai uchelgeisiau lleol yn glir, roedd y ffordd yr oedd y mewnbwn hwnnw'n bwydo i mewn i'r broses reoleiddio yn anghyson. Roedd hwn yn faes amlwg lle gallai’r tRESP hybu gwerth, gan helpu i ddatgloi twf economaidd lleol a datgarboneiddio. Fodd bynnag, mae hwn yn faes lle mae angen gwneud rhagor o waith ar gyfer y RESP Llawn, yn enwedig mewn trafodaeth â byrddau strategol a gweithgorau’r RESP. Lle mae cwmpas y tRESP wedi newid, rydym wedi cael ein harwain gan dair sylfaen ein tRESP:

a) Rydyn ni yma i hybu gwerth. I wneud hyn, byddwn yn blaenoriaethu meysydd allweddol, yn bod yn dryloyw ynghylch pam ein bod wedi’u dewis a’r hyn y byddwn yn ei gyflawni i gefnogi ED3.
b) Dull ‘dim byd annisgwyl’. Bydd gennym gerrig milltir ar hyd y ffordd, a llwybrau ystyrlon ar gyfer cydweithio â'r rhwydweithiau ynni a'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.
c) Bydd ein gwaith yn seiliedig ar leoedd penodol, ac yn canolbwyntio ar gyd-destun ac anghenion pob ardal. Byddwn yn dylunio ein gwaith er mwyn casglu gwybodaeth ehangach gan ein rhanddeiliaid lleol, gwybodaeth a all lywio'r gwaith o bennu ED3.

# Llywodraethu, Ymgysylltu a Sicrwydd

Un o sylfeini allweddol NESO yw ein gallu i roi cyngor annibynnol ar sut i gynllunio a gweithredu system ynni Prydain Fawr yn strategol.

Mae trefn lywodraethu’r tRESP dan ofal Pwyllgor Llywio Prydain Fawr, a oedd yn wreiddiol yn cynnwys NESO, Ofgem a'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net. Ym mis Medi 2025, ymunodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban hefyd. Mae'r pwyllgor hwn wedi rhoi adborth ar ein gwaith, wedi olrhain y gwaith a gyflawnwyd ac wedi rhoi cymeradwyaeth ar adegau allweddol wrth inni lunio ein dull gweithredu.

Rydym wedi bod mewn cysylltiad â’r cwsmeriaid a’r rhanddeiliaid o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys fforymau RESP chwarterol sy'n agored i bawb ym mhob gwlad a rhanbarth a gweithgorau technegol misol gyda Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu a’r Rhwydweithiau Dosbarthu Nwy (GDNs). Fel rhan o’n hamserlen hefyd cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Medi 2025, i gael adborth ar ein hallbynnau drafft. Cyfrannodd y rhain i gyd at gyflawni ein dull ‘dim byd annisgwyl’ a bod yn gallu asesu'n barhaus sut roeddem yn hybu gwerth. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn ein datganiad tryloywder, a gyhoeddwyd gennym ym mis Ebrill 2025[4].

[4] Datganiad Tryloywder Ymgysylltu’r tRESP

Yn olaf, cynhwysai ein gwaith weithgareddau sicrwydd allweddol i sicrhau bod ein prosesau'n addas i'r diben ac wedi cael eu dilyn yn gywir. Cynhaliwyd y gweithgaredd sicrwydd hwn ar holl allbynnau ein tRESP, gan gynnwys adolygu ein dull Cais am Wybodaeth (RFI), ein gweithgareddau awtomeiddio ynghyd â rheolaethau modelu ac asesiadau o fylchau ar ein llwybrau. Digwyddodd y gweithgaredd sicrwydd hwn ar wahanol lefelau, yn uniongyrchol gan dîm NESO, yn ogystal â gan ddarparwyr sicrwydd allanol. Ochr yn ochr â'r broses hon, rydym wedi rhannu ein hallbynnau gyda Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu yn ystod y flwyddyn, i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Mae rhagor o fanylion am ein gweithgaredd sicrwydd ar gael yn ein methodolegau.[5]

[5] Methodoleg Llwybrau a Dyluniad Manwl y tRESP
Methodoleg Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson (CPAs) a Dyluniad Manwl y tRESP
Methodoleg Anghenion Ynni Strategol a Dyluniad Manwl y tRESP
Methodoleg a Dyluniad Manwl Cyd-destun Gwledydd a Rhanbarthau'r tRESP

# Ein hallbynnau:

# Effaith, Dull Gweithredu a'r Camau Nesaf



# Cyd-destun y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Rydym wedi cyflwyno dau gyd-destun cenedlaethol ar gyfer Cymru a'r Alban, yn ogystal â naw cyd-destun ar gyfer rhanbarthau RESP Lloegr. Mae'r rhain yn rhoi darlun cychwynnol o'r dirwedd ynni, yn ogystal â'r blaenoriaethau ar gyfer pob gwlad neu ranbarth, gan dynnu sylw at y prif heriau a'r prif gyfleoedd.

**Pa effaith mae hyn wedi'i chael?**

1. Mae wedi rhoi inni ddarlun cyson o'r cynnydd a wnaed i ddatgarboneiddio ar draws destunau allweddol sy'n berthnasol i ED3 yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ynghyd â setiau data sydd ar gael yn genedlaethol. Mae hyn yn caniatáu inni wneud cymariaethau, ond mae hefyd yn creu llinell sylfaen i gyd-redeg â data lleol mewn cynllun RESP Llawn.
2. Mae'n gosod gwledydd a rhanbarthau yn y cyd-destun Prydeinig ehangach, yn neilltuol Gynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU, yn ogystal ag yn cyd-fynd â data o'n Llwybrau tRESP lle bynnag y bo modd, ochr yn ochr â data a gwybodaeth ychwanegol.
3. Cafodd ein hallbwn digidol ei greu i gynnwys y wybodaeth sy'n ymwneud ag ynni sy'n bwysig i gymunedau lleol. Gall cwsmeriaid a rhanddeiliaid weld data'n fanwl iawn, gan roi darlun rhyngweithiol.

## Sut aethom ati i gyflawni ein cyd-destunau gwledydd a rhanbarthau o dan y cynllun tRESP?

Rydym wedi datblygu cyd-destunau ein Gwledydd a'n Rhanbarthau drwy gylch ailadroddus gydol y flwyddyn hon er mwyn adlewyrchu adborth y rhanddeiliaid.

Sbardun arall fu sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd sydd fwyaf perthnasol i ED3. Cafodd cwmpas manwl yr allbwn hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Llywio Prydain ym mis Gorffennaf 2025. Cafodd hwn ei gyhoeddi fel rhan o'n hymgynghoriad ym mis Medi 2025. Fel rhan o'n cyhoeddiad terfynol, rydym wedi diweddaru rhai adrannau. Mae'r fethodoleg derfynol ar gael yma.[5]

Mae'r fethodoleg yn cofnodi sawl maes allweddol sy'n ffurfio rhan o'r cyd-destunau. Mae'r rhain yn cynnwys demograffeg ac elfennau economaidd-gymdeithasol, seilwaith ynni, trafnidiaeth a gwresogi, diwydiant a'r economi, cynhyrchu a storio a thargedau ac uchelgeisiau cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae ein hallbwn digidol yn adlewyrchu hyn drwy ddarparu mapiau a delweddau rhyngweithiol ar gyfer y meysydd allweddol hyn, ochr yn ochr â'r testun sy'n disgrifio'r cyd-destun sy'n berthnasol i'r wlad neu'r rhanbarth penodol hwnnw.

Ar wahân i hyn, mae ein hallbwn wedi cael ei siapio gan ddau gwestiwn allweddol, ac rydym wedi eu hystyried yn barhaus wrth gyflawni'r gwaith hwn.

1. *Sut ydyn ni'n sicrhau bod cyd-destunau ein gwledydd a'n rhanbarthau yn adlewyrchu safbwyntiau a blaenoriaethau'r rhanddeiliaid yn y gwledydd a'r rhanbarthau?*

O'r cychwyn cyntaf yn y tRESP, roeddem yn cydnabod bod cwsmeriaid a rhanddeiliaid lleol yn meddu ar gyfoeth o wybodaeth a dealltwriaeth ychwanegol perthnasol, yn ogystal â safbwyntiau amrywiol. Er ein bod wedi gwneud cynnydd tuag at gofnodi'r amrywiaeth hwn, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd. Ar gyfer y tRESP, rydym wedi darparu gwybodaeth am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ac, yn achos Lloegr, yr Awdurdodau Cyfun ac Awdurdod Llundain Fwyaf. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i lywodraeth leol ar bob haen mewn RESP Llawn.

Yn ystod 2025, fe wnaethom ddechrau adeiladu ein timau RESP ar draws Prydain Fawr; mae'r timau hyn yn allweddol i sicrhau bod amrywiaeth pob gwlad a rhanbarth yn cael ei adlewyrchu yn y RESP. Drwy greu'r timau hyn roedd modd inni ymgysylltu'n fwy effeithiol â chwsmeriaid a rhanddeiliaid ar draws pob gwlad a rhanbarth. Un rhan allweddol o'n gweithgaredd i ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid oedd drwy fforymau chwarterol RESP ym mhob Gwlad a Rhanbarth, lle casglwyd barn ar y pynciau sy'n flaenoriaeth iddynt, yn ogystal ag adrodd yn ôl ein safbwyntiau datblygol i gael sylwadau arnynt.

2. *I ba raddau y byddem yn cynnwys data lleol ychwanegol.*

Er bod data lleol yn gallu bod yn fwy cyfredol neu'n fwy penodol i leoliad, daw hefyd yn aml mewn amrywiol fformatau ac mae angen ei brosesu ymhellach. Oherwydd y fformatau gwahanol a'r diffiniadau data gwahanol, mae'n anodd cymharu'r setiau data'n aml.  O'r herwydd, ar gyfer tRESP, fe wnaethom benderfynu parhau i flaenoriaethu setiau data a oedd ar gael yn genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o gyd-destunau, themâu a phynciau'r gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Alban. Roedd hyn yn golygu y gallem gyflwyno allbwn tebyg ar gyfer pob gwlad neu ranbarth wedi'i greu ar setiau data tebyg.

Cyfeiriwyd at y ddau faes hyn yn yr adborth i'n hymgynghoriad. Gallwch weld sut y gwnaethom ymgorffori'r adborth hwn yn ein hadroddiad Ymateb i'r Adborth i'r Ymgynghoriad.[6]

[6] Ymateb i'r Adborth i'r Ymgynghoriad ar y cynllun tRESP

## Y Camau Nesaf

Ar gyfer ED3, bydd cyd-destun y gwledydd a'r rhanbarthau yn y tRESP yn cynorthwyo Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu i greu eu cynlluniau buddsoddi mewn rhwydweithiau. Bydd yn rhoi darlun annibynnol, cydlynol a chyson o bob gwlad a rhanbarth, gan gasglu gwybodaeth sy'n benodol i'r ardal ar yr un pryd.

Bydd ein gwaith ar y tRESP hefyd yn gweithredu fel llinell sylfaen ar gyfer datblygu cyd-destun y gwledydd a'r rhanbarthau mewn RESP Llawn. Un gwahaniaeth allweddol yn y RESP yw y bydd cyd-destun y gwledydd a'r rhanbarthau yn cael ei ddatblygu cyn cydrannau eraill y RESP, fel y llwybrau a'r fanyleb anghenion buddsoddi strategol (manylir ymhellach ar hon isod), gan ddarparu sylfaen ar gyfer creu cydrannau eraill y cynllun RESP. Nid oedd hyn yn bosibl ar gyfer y cynllun tRESP oherwydd y cyfyngiadau amser, a chafodd yr holl allbynnau eu dylunio a'u cyflwyno ar yr un pryd.  Bydd RESP llawn yn adeiladu ar setiau data'r tRESP, gan ddarparu gwelliannau sy'n defnyddio setiau data cadarn a grëwyd o ffynonellau lleol.

# Llwybrau

Rydym wedi cyflwyno set o ragamcanion i ddisgrifio sut y caiff technolegau allweddol ar gyfer y cynhyrchiant a'r galw am ynni trydanol eu mabwysiadu hyd at 2050, ar lefel dosbarthu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r cynllun RESP. Maent yn nodi lefel y technolegau carbon isel a'r cynhyrchiant gwasgaredig y flwyddyn fesul ardal Pwynt Cyflenwi'r Grid hyd at 2050, er mwyn gosod cyfeiriad strategol er mwyn i Weithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu gynllunio eu rhwydweithiau.

**Pa effaith mae hyn wedi'i chael?**

1. Rydym wedi creu llwybr tymor byr rhwng 2025 a 2035, yn ogystal â thri Llwybr tymor hir sy'n rhedeg o 2035 i 2050. Mae'r rhain yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer 35 o flociau adeiladu technoleg a 231 o ardaloedd Pwyntiau Cyflenwi Grid y tRESP sydd wedi'u hadeiladu ar linell sylfaen gyson ac wedi'u llywio gan fewnbwn gan Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu.

2. Mae ein Llwybrau yn rhoi trywydd clir ar gyfer y newidiadau yn y cyflenwad a'r galw ledled Prydain Fawr. Maent yn nodi y dylai cynlluniau rhwydwaith yn 2036 adlewyrchu gwasanaethu 28m o gerbydau trydan, 8m o bympiau gwres domestig, a chyflenwi 1.7m o gwsmeriaid domestig â rhwydweithiau gwres a gyflenwir gan bympiau gwres. Mae Llwybrau tRESP hefyd yn dangos y bydd angen i rwydweithiau Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu ddarparu ar gyfer cynhyrchu a storio 95 GW yn ychwanegol dros y deng mlynedd nesaf.*

* Yn seiliedig ar niferoedd y llwybrau ar gyfer 31 Mawrth 2036

## Sut aethom ati i gyflawni ein Llwybrau ar gyfer y cynllun tRESP?

Rydym wedi datblygu Llwybrau drwy gylch ailadroddus gydol y flwyddyn hon er mwyn adlewyrchu adborth gan y rhanddeiliaid, yn ogystal â hybu gwerth yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol i ED3. Gallwch ddod o hyd i

Cafodd cwmpas manwl yr allbwn hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Llywio Prydain ym mis Gorffennaf 2025. Cafodd hwn ei gyhoeddi fel rhan o'n hymgynghoriad ym mis Medi 2025. Fel rhan o'n cyhoeddiad terfynol, rydym wedi diweddaru rhai adrannau. Mae'r fethodoleg derfynol ar gael yma.[5] Wrth ddatblygu Llwybrau'r tRESP, cawsom ein harwain gan ddau gwestiwn allweddol:

i) Sut ydyn ni'n sicrhau bod ein Llwybrau'n ychwanegu gwerth ac y gellir eu cyflawni yn yr amser sydd ar gael ar gyfer y tRESP? a
ii) Sut ydyn ni'n sicrhau bod ein Llwybrau yn adlewyrchu uchelgeisiau a thargedau lleol a chenedlaethol?

Datblygodd ein dull o gyflawni hyn gydol yr amser y buom yn datblygu ein methodoleg. Cafodd hyn ei ysgogi gan ein dealltwriaeth gynyddol o gymhlethdod darparu allbwn llwybrau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd newidiadau yn y cwmpas yn sicrhau bod modd inni gyflawni a bod ein Llwybrau'n canolbwyntio ar y meysydd sydd fwyaf perthnasol a phwysig i gyfnod rheoli prisiau ED3. Roedd hyn yn cynnwys casglu data lleol a chenedlaethol, yn ogystal ag ymdrechion i beidio â dyblygu'r gwaith y byddai Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu yn ei

wneud fel rhan o'u cynlluniau busnes ar gyfer ED3. O ystyried hyn, wrth greu ein Llwybrau fe wnaethom ganolbwyntio ar dri phwynt:

1. Sicrhau bod cwmpas y llwybrau'n berthnasol i ED3.

Fe wnaethom saernïo ein llwybrau o amgylch allbynnau'r blociau adeiladu a ddiffinnir o'n Senarios Ynni'r Dyfodol (FES).[7] Datblygwyd y blociau adeiladu, h.y. grwpiau technoleg, yn flaenorol mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni. Cyhoeddwyd rhestr blociau adeiladu'r tRESP fel rhan o'n hymgynghoriad ym mis Medi.

Ar gyfer llwybrau galw, fe roesom flaenoriaeth i dechnolegau trydanol y rhagwelir y byddant yn tyfu'n aruthrol dros y blynyddoedd nesaf, fel cerbydau trydan, pympiau gwres a systemau gwresogi ardal. Ar sail dadansoddiad o Gyfnod Pontio Cyfannol FES 2025, disgwylir i gerbydau trydan, pympiau gwres a systemau gwresogi ardal gyfrif am 93% o'r cynnydd yn y galw oriau brig erbyn 2035 ac am dros 80% erbyn 2050.

Ar gyfer cynhyrchu, dim ond blociau adeiladu sy'n berthnasol i rwydweithiau dosbarthu trydan y rhoesom sylw iddynt. Enwyd systemau ffotofoltäig solar (PV), ynni gwynt ar y tir, a storfeydd ynni fel y prif gyfranwyr at y capasiti sydd ei angen ar lefel dosbarthu trydan. Yn ôl FES 2025 (sy'n adlewyrchu Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU), solar ffotofoltaidd, gwynt ar y tir a storio sydd i gyfrif am 83% o'r capasiti cynhyrchu trydan yn y llwybr Pontio Cyfannol yn 2030 ac am 91% yn 2050.

2. Creu Llwybrau tymor byr a thymor hir sy'n adlewyrchu'r polisi a'r uchelgais yn lleol ac ar draws Prydain Fawr, a galluogi ar yr un pryd benderfyniadau buddsoddi effeithlon dros ED3 a chyfnodau rheoleiddio i'r dyfodol

Mae ein Llwybrau wedi'u hadeiladu oddi ar ein llinell sylfaen ein hunain, h.y. gwerthoedd cychwynnol ein rhagamcanion, a bennwyd ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer holl ardaloedd Pwyntiau Cyflenwi'r Grid ym Mhrydain Fawr. Fe wnaethom ddefnyddio cyfuniad o ddata FES yn ogystal â data lleol i adlewyrchu cyd-destun Prydain Fawr a'r cyd-destun lleol.

Mae ein llwybr tymor byr yn seiliedig ar fewnbwn gan Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu, yn arbennig eu Senarios Dosbarthu Ynni'r Dyfodol. Yn benodol, rydym wedi edrych ar ddehongliad lleol Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu o Lwybr Pontio Cyfannol Senarios Ynni'r Dyfodol (FES). Mae Trawsnewid Cyfannol yn un o'r llwybrau FES gyda lefelau uchel o ynni adnewyddadwy a lefel ymgysylltiad uchel gan ddefnyddwyr, a dyma'r llwybr y dywedodd Ofgem wrth y rhwydweithiau trawsyrru trydan yn y gorffennol y dylent ei ddefnyddio ar gyfer eu cynlluniau busnes.[8]

Mae ein Llwybrau hirdymor yn seiliedig ar dueddiadau DFES tymor hir ar gyfer Pontio Cyfannol, Ymgysylltu â Thrydan ac Esblygiad

[7] Blociau Adeiladu FES 2025

[8] Canllawiau creu Cynllun Busnes RIIO-3, Ofgem

Hydrogen erbyn 2050, gan sicrhau cysondeb â Llwybrau FES 2025 ar gyfer cynllunio a datblygu i'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau bod ein data yn gwbl ddiweddar gydol ein Llwybrau tymor byr a thymor hir, fe wnaethom ofyn i Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu ddarparu rhagamcanion cwbl ddiweddar ym mis Tachwedd 2025, yn fwyaf arbennig i adlewyrchu newidiadau i'r rhagolygon ar gyfer gwynt ar y tir, solar a storfeydd batris sy'n deillio o Gynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU a diwygio'r broses gysylltu. Caniataodd hyn inni greu fersiwn 3 o'n Llwybrau tRESP.

Ein cam olaf oedd cynnal adolygiad cysoni i gynhyrchu set gydlynol o Lwybrau ar draws Prydain Fawr. Mae ein fframwaith i gwblhau hyn yn cynnwys tair elfen i sicrhau bod y tueddiadau allweddol yn Llwybrau'r tRESP yn cael eu harchwilio i sicrhau cysondeb, a bod Llwybrau'r tRESP hefyd yn adlewyrchu targedau Llywodraeth y DU. Roedd y rhain yn cynnwys 1) cysoni â Chynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU drwy'r canlyniad diwygio cysylltiadau, 2) sicrhau cysondeb â chyllidebau carbon a 3) dilysu bod tueddiadau gwresogi tai preswyl a cherbydau trydan yn cynrychioli'r amodau lleol.

3. Gwneud Llwybrau'r tRESP yn fwy hygyrch i'r holl randdeiliaid.

Cawsom adborth yn ein hymgynghoriad ym mis Medi ar sut i sicrhau bod ein Llwybrau yn ystyrlon ac yn hygyrch i randdeiliaid.

[9] https://www.neso.energy/data-portal/tresp-demand-pathways

Ar sail yr adborth, fe wnaethom ddiweddaru Methodoleg Llwybrau'r tRESP a'n dogfen Dyluniad Manwl i gynnwys eglurhad ar sut mae'r tRESP yn berthnasol i rwydweithiau Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu Annibynnol (IDNO), perthynas y Llwybrau ag Anghenion Ynni Strategol, ac eglurder pellach ar ein diffiniadau. Er mwyn ei gwneud yn haws gweld y data, mae'r Llwybrau bellach wedi'u cyhoeddi ar y Porth Data Agored.[9]

Er mwyn gwneud yr allbwn yn fwy hygyrch a pherthnasol i randdeiliaid lleol, rydym bellach wedi cyflwyno gwedd ddangosol newydd ar lefel awdurdod lleol i helpu defnyddwyr i ddeall y goblygiadau lefel uchel i'w hardal. Ni ddylid defnyddio'r farn hon ar gyfer gwaith modelu manwl gyda'r Cynllunydd Ynni Ardal Leol a Mwy (LEAP+) oherwydd, ar gyfer ED3, Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu sy'n dal i fod yn gyfrifol am ddyrannu'r dechnoleg ymhellach i lawr oddi wrth ardaloedd Pwyntiau Cyflenwi'r Grid (GSP), at ddibenion cynllunio'r rhwydwaith.

## Y camau nesaf

Bydd Llwybrau'r tRESP yn gweithredu fel mewnbwn i gynlluniau busnes Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu ar gyfer ED3. Bydd Ofgem yn cyhoeddi canllawiau pellach ar ymgorffori Llwybrau'r tRESP mewn rhagolygon galw ehangach, fel rhan o'i ganllaw ar greu cynlluniau busnes ED3, a bydd Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu yn creu eu cynlluniau, cyn eu cyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn. Yn fwyaf nodedig ar gyfer Llwybrau,

bydd angen i Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu ddeall yr effaith y bydd ein Llwybrau yn ei chael ar ofynion buddsoddi ar eu rhwydweithiau.

Ein gwaith ar lwybrau tRESP yw'r man cychwyn ar gyfer cyflawni cwmpas ein RESP Llawn. Bydd Llwybrau'r RESP yn mynd ymhellach drwy ddefnyddio dull sy'n gweithredu ar draws pob ynni, gan gynnwys opsiynau galw a chyflenwad o'r gwaelod i fyny ar draws rhwydweithiau dosbarthu trydan a nwy. Bydd yn integreiddio rhagor o ffynonellau data lleol. Yn hollbwysig, bydd hefyd yn gydnaws â chynlluniau strategol eraill y mae NESO yn eu datblygu, gan gynnwys y Cynllun Ynni Gofodol Strategol.

# Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson

Rydym wedi creu set o ragdybiaethau i sicrhau bod Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu yn defnyddio dull cyson i ragweld y galw sy'n gysylltiedig â'r lefelau technoleg carbon isel a ddiffinnir yn Llwybrau'r tRESP, mewn tri maes allweddol: cerbydau trydan, pympiau gwres tai preswyl ac effeithlonrwydd ynni trydanol tai preswyl.

**Pa effaith mae hyn wedi'i chael?**

1. Bydd ein set o Ragdybiaethau Cynllunio Cyson yn allweddol i sicrhau lefel o gysondeb wrth drosi technolegau carbon isel yn effeithiau ar y rhwydwaith ar draws Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu.
2. Ar lefel Prydain Fawr, wrth gyfuno Llwybrau tRESP ar gyfer cerbydau trydan a phympiau gwres domestig â Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson cyfatebol y tRESP, rydym yn amcangyfrif uchafswm o 11.6 GW ar gyfer cerbydau trydan a 6.4 GW ar gyfer cyfraniad brig pympiau gwres domestig erbyn 2035.* Mae'r canlyniadau hyn yn helpu i roi darlun dangosol o'r effaith fawr y mae technolegau carbon isel yn ei chael ar y rhwydweithiau dosbarthu, a phwysigrwydd defnyddio Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson i gynyddu tryloywder yn y broses o gynllunio'r rhwydwaith.

* Yn seiliedig ar niferoedd y Llwybrau ar gyfer 31 Mawrth 2036

## Sut aethom ati i gyflawni Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson y cynllun tRESP?

Rydym wedi datblygu Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson drwy gylch ailadroddus gydol y flwyddyn hon er mwyn adlewyrchu adborth gan y rhanddeiliaid, yn ogystal â hybu gwerth yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol i ED3.

Cafodd cwmpas manwl yr allbwn hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Llywio Prydain ym mis Gorffennaf 2025 a'i gyhoeddi fel rhan o'n hymgynghoriad ym mis Medi 2025. Fel rhan o'n cyhoeddiad terfynol, rydym wedi diweddaru rhai adrannau. Mae'r fethodoleg derfynol ar gael yma.[5] Pwrpas Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson yw galluogi Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu i gael effaith gyson ar y rhwydwaith drwy dechnolegau newydd, gan roi hyder i Ofgem a rhanddeiliaid eraill drwy gynlluniau rhwydwaith. Er mwyn hybu gwerth, fe wnaethom ganolbwyntio ar feysydd a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar fodelu llwythau trydanol, sef cerbydau trydan, pympiau gwres tai preswyl, ac effeithlonrwydd ynni trydanol tai preswyl.

Fel rhan o'r broses, fe wnaeth ein dealltwriaeth o'r dystiolaeth, yn ogystal â'r amcanion roeddem am eu cyrraedd, ddal i ddatblygu. Roedd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gydag Ofgem a Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu i ddeall eu gofynion a sicrhau y gallai ein gwybodaeth gyfrannu'n effeithiol at broses ED3. O hyn, daeth yn amlwg ei bod yn bwysig bod y Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson yn cydnabod pwysigrwydd

adlewyrchu gwahaniaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel tymheredd.

Arweiniodd hyn at ein methodoleg derfynol. Ar gyfer pob Rhagdybiaeth Gynllunio Gyson unigol, rydym yn nodi gwerth/set o werthoedd diofyn neu ystod o werthoedd gydag un rhagosodiad ynddi. Er enghraifft, mae maint y pwmp gwres yn cael ei ragnodi fel set o werthoedd pŵer yn ôl categori'r annedd, tra bod paramedrau eraill sy'n gysylltiedig â thymheredd ar gyfer pympiau gwres yn cael eu gosod fel ystod i gofnodi'r gwahaniaethau tymheredd yn lleol. Mae holl werthoedd y Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson wedi'u cynnwys yn ein llyfr gwaith.[10]

Fe wnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygu'r Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson gyda Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu drwy weithgorau technegol a chyfarfodydd dwyochrog, a drwy'r ymgynghoriad ffurfiol ar y tRESP. Fe wnaethom weithredu ar dair thema allweddol a gododd o'r adborth: 1) Asesu a diweddaru gwerthoedd mewnbwn ar gyfer Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson, 2) Gwella ein methodoleg i ganiatáu ar gyfer achosion lle mae gan Ragdybiaethau Cynllunio Cyson ddulliau modelu gwahanol ac ar gyfer amrywiadau lleol ychwanegol, a 3) Gwella'r allbynnau i fod yn fwy hygyrch ac yn haws eu defnyddio

[10] Llyfr Gwaith Gwerthoedd Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson y tRESP

## Y camau nesaf

Ar gyfer ED3, rydym wedi nodi ein barn ar sut y dylai Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu ddefnyddio Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson yn ein canllawiau i ddefnyddwyr, sydd wedi'u cynnwys fel atodiad i'n methodoleg. Bydd Ofgem yn ystyried hyn pan fydd yn cyhoeddi ei ganllawiau ar greu cynllun busnes a fydd yn cael eu rhyddhau yn ddiweddarach eleni. Yn dilyn hyn, bydd Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu yn creu eu cynlluniau, cyn cyflwyno cynllun busnes i Ofgem erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae ein gwaith ar Ragdybiaethau Cynllunio Cyson yn sylfaen gref ar gyfer RESP Llawn. Yn ein methodoleg RESP, rydym yn cyflwyno'r broses y byddwn yn ei dilyn i adolygu a mireinio rhestr o Ragdybiaethau Cynllunio Cyson i'w blaenoriaethu. Ar ddechrau pob cylch RESP, byddwn yn diweddaru'r rhestr hon i adlewyrchu newidiadau yn y dirwedd ynni. Er enghraifft, drwy ychwanegu categorïau newydd neu ddileu'r rhai nad ydynt yn berthnasol mwyach. Bydd hon yn adeiladu ar y rhestr o'r tRESP, gan ehangu i gynnwys rhwydweithiau dosbarthu nwy a thrydan.

# Angen Ynni Strategol

Rydym wedi nodi ardaloedd lle gellid bod angen dull strategol o fuddsoddi'n rhagweithiol cyn ceir angen penodol, er mwyn galluogi blaenoriaethau allweddol ledled Prydain. Mae hyn yn canolbwyntio ar feysydd na chânt eu cynnwys yn ein Llwybrau ni, fel porthladdoedd rhydd, canolfannau data a datblygiadau diwydiannol mawr newydd.

**Pa effaith mae hyn wedi'i chael?**

1. Fe wnaethom ymgysylltu â dros 400 o sefydliadau drwy gais am wybodaeth, gan ddatgelu prosiectau nad oedd y rhwydweithiau'n gwybod amdanynt o'r blaen. Bydd pob un o'r prosiectau hyn yn fan cychwyn ar gyfer ein RESP Llawn ac yn sail ar gyfer ein cofrestr newydd o brosiectau sydd yn y cam datblygu.

2. Rydym wedi datblygu dull cadarn sy'n defnyddio prosesau awtomatiaeth mewn cydweithrediad agos ag Ofgem a Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu, ar sail sicrwydd mewnol ac allanol, gan sicrhau bod y broses yn cyflawni canlyniadau gwrthrychol, cyson ac ailadroddadwy i fwydo i mewn i'r cyfnod rheoli prisiau dosbarthu trydan nesaf, ED3.

3. Mae ein gwaith bellach yn cyflwyno sefyllfa Angen Ynni Strategol ddilynol o 18.5 GW i'w ystyried ar gyfer capasiti nad yw prosesau tebyg i'r arfer yn debygol o fod wedi darparu ar ei gyfer.

Fe sylwch fod ein hallbwn wedi newid o anghenion buddsoddi strategol yn ein hymgynghoriad, i Anghenion Ynni Strategol. Y rheswm am hyn yw oherwydd ni fydd y tRESP ddim ond yn nodi pan geir galw strategol (yr angen am ynni), tra bydd Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu yn parhau i fod yn gyfrifol am gynllunio rhwydweithiau a datblygu eu cynlluniau buddsoddi os dônt i'r casgliad bod buddsoddiad yn ofynnol. Rydym wedi categoreiddio anghenion ynni naill ai fel:

- Anghenion sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n strategol i'r wlad neu'r rhanbarth, ac y byddant, yn ein barn ni, yn berthnasol i'r galw i'r dyfodol, er bod naill ai ansicrwydd a fydd y rhain yn syrthio o fewn cyfnod rheoli prisiau ED3, neu mae ganddynt eisoes ddigon o sicrwydd i gael eu cynnwys yn Llwybrau'r tRESP.
- Ystyried ardaloedd Pwyntiau Cyflenwi'r Grid i gael buddsoddiad rhagweithiol; mae'r rhain yn is-set lai o'r anghenion strategol, yr ydym ni'n awgrymu y dylid eu hystyried i gael buddsoddiad rhagweithiol cyn bo angen yng nghyfnod rheoli prisiau ED3. Mae ardaloedd Pwyntiau Cyflenwi'r Grid sydd i'w hystyried i gael buddsoddiad rhagweithiol yn seiliedig ar anghenion ynni sy'n annhebygol o gael eu cefnogi gan y peirianweithiau buddsoddi yn y rhwydwaith tebyg i'r arfer presennol, sy'n gofyn am lefelau uwch o sicrwydd o angen. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith yn barod i gefnogi twf economaidd a gweithgareddau datgarboneiddio i'r dyfodol.

- Anghenion camau cynnar neu anghenion sydd o fewn cwmpas y gwaith i ddiwygio'r broses cysylltiadau trawsyrru; mae'r rhain yn anghenion sydd ar gam cynharach yn eu datblygiad ac nid oes angen buddsoddi yn y rhwydwaith eto ond dylid cadw golwg arnynt. Gall y categori hwn hefyd gynnwys systemau cynhyrchu neu storio sydd dros 200 kW yn yr Alban, neu dros 5 MW yng Nghymru a Lloegr sydd eisoes wedi'u cynnwys yn sgil diwygio'r broses gysylltu.

Mae'r data a gesglir yn y categorïau hyn yn ffurfio Llyfr Gwaith Data'r Anghenion Ynni Strategol, a ddarperir i Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu i lywio'r gwaith o greu cynlluniau busnes ED3. Bydd llyfr gwaith Data'r Anghenion Ynni Strategol yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer creu'r Gofrestr Prosiectau yn y Cam Datblygu, a ddefnyddir i lywio adolygiad nesaf NESO o Anghenion Ynni Strategol yn ein RESP Llawn cyntaf, a fydd yn dechrau ar ôl cyhoeddi'r tRESP. Mae hyn yn sicrhau parhad ac yn cydnabod mewnbwn rhanddeiliaid.

## Sut aethom ati i gyflawni allbwn yr Anghenion Ynni Strategol yn y tRESP?

Rydym wedi cyflawni'r Anghenion Ynni Strategol drwy gylch ailadroddus gydol 2025 er mwyn adlewyrchu'r adborth gan y rhanddeiliaid, yn ogystal â hybu gwerth yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol i ED3.

Cafodd cwmpas manwl yr allbwn hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Llywio Prydain ym mis Gorffennaf 2025. Cafodd hwn ei gyhoeddi fel rhan o'n hymgynghoriad ym mis Medi 2025. Fel rhan o'n cyhoeddiad terfynol, rydym wedi diweddaru rhai adrannau. Mae'r fethodoleg derfynol ar gael yma.[5] Nid rhestru'r holl anghenion ynni hysbys oedd y diben, na dyblygu'r prosesau cynllunio debyg i'r arfer neu leol a wneir gan weithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu. Mae ein dull gweithredu yn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu blaenoriaethau allweddol ledled Prydain Fawr. Mae hyn yn cynnwys anghenion ynni sydd â sail gredadwy dros lywio buddsoddiadau mewn rhwydweithiau. Yn benodol, mae ein dull gweithredu yn dileu anghenion ynni sydd eisoes yn cael eu diwallu drwy beirianweithiau buddsoddi amgen, e.e. y rheini sydd eisoes yn bwrw ymlaen â chynigion cysylltu derbyniol i rwydwaith un o Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu, neu dechnolegau yn ein Llwybrau tRESP.

Fel y nodir uchod, un o'r camau nesaf allweddol yn dilyn yr ymgynghoriad oedd ystyried sut roeddem wedi trin y cyflwyniadau i'n Cais am Wybodaeth, a lansiwyd yn ystod haf 2025. Cawsom gyfanswm o 2,500 darn o dystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu a Rhwydweithiau Dosbarthu Nwy, awdurdodau lleol a sefydliadau cynrychioladol. Cafwyd tystiolaeth hefyd gan gyrff cyhoeddus, fel prifysgolion ac ymddiriedolaethau'r GIG, diwydiant a phorthladdoedd, datblygwyr, a grwpiau ynni cymunedol.

Er mwyn nodi ardaloedd Pwyntiau cyflenwi'r grid y dylid eu hystyried ar gyfer buddsoddiad rhagweithiol, rydym wedi defnyddio dull teg, diduedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i ddefnyddio yn yr un ffordd ar draws pob gwlad a rhanbarth. Fe wnaeth NESO hefyd wneud dadansoddiad cysondeb rhwng ardaloedd RESP ac bu'n ystyried hyn ochr yn ochr â'r Cyd-destun ar gyfer pob Gwlad a Rhanbarth. Roedd y dull hwn yn ystyried adborth gan Ofgem a Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein methodoleg.

Rydym yn cydnabod bod i Gais am Wybodaeth ei gyfyngiadau. Rhoddwyd sylw i'r maes hwn hefyd mewn ymatebion i'n hymgynghoriad. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni wedi ystyried hyn ar gael yn ein hadroddiad Ymateb i'r Adborth i'r Ymgynghoriad.[6] Hynny yw, ein bod yn dibynnu ar y cyflwyniadau a gawn, sy'n safbwynt pwynt-mewn-amser, ac efallai na fyddant yn cynrychioli pob prosiect sy'n berthnasol ledled Prydain Fawr yn llawn. Yn yr un modd, mae anghenion rhwydwaith ynni'r dyfodol yn amrywio ar draws y wlad ac felly bydd rhai ardaloedd yn gofyn am fwy o fuddsoddiad nag eraill i gyd-fynd â'r uchelgeisiau lleol. O ganlyniad, nid yw pob cyflwyniad wedi cael ei nodi fel un y mae angen buddsoddi ynddo cyn bo angen. Ni fu modd ystyried yr holl ffactorau hyn yn fanwl.

## Y camau nesaf

Ar gyfer ED3, bydd Anghenion Ynni Strategol y tRESP yn gweithredu fel mewnbwn i gynlluniau busnes y Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarth ar gyfer ED3. Bydd Ofgem yn cyhoeddi manylion ar sut caiff hyn ei wneud fel rhan o'i ganllaw ar greu cynlluniau busnes a bydd Gweithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu yn creu eu cynlluniau, cyn eu cyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r broses hon yn ychwanegol at y prosesau presennol ar gyfer cysylltiadau a chynllunio buddsoddiadau sydd eisoes ar waith, ac nid yw'n eu disodli. Mater i Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu fydd cynnal y trefniadau diwydrwydd dyladwy ar ofynion ynni prosiectau a'u hamseriad fel rhan o'u gwaith cynllunio. Rydym yn annog rhanddeiliaid lleol i ddal i ymgysylltu â Gweithredwr eu Rhwydwaith Dosbarthu lleol.

Ar gyfer RESP llawn, bydd y dull tRESP yn datblygu'n sylweddol, yn enwedig o amgylch meysydd allweddol fel sut rydym yn adnabod Anghenion Ynni Strategol cymhleth, sut rydym yn asesu gwerth ac ansicrwydd y system yn ogystal â'r gofrestr o brosiectau sydd yn y cam datblygu. Mae'r tRESP hefyd wedi cadarnhau pwysigrwydd cymorth cyfranogwyr lleol i alluogi cwsmeriaid a rhanddeiliaid i chwarae rhan weithredol yn RESP. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sefydliadau hynny nad oes ganddynt ar hyn o bryd y capasiti na'r arbenigedd mewn cynllunio prosiectau ynni. Mae ein cynigion diweddaraf ar gyfer cefnogi cyfranogwyr lleol wedi'u cynnwys ym methodoleg y RESP Llawn.

Cyhoeddus

# Geirfa



| Term / Byrfodd | Diffiniad / Ffurf Lawn |
|---|---|
| **Anghenion Buddsoddi Strategol** | Angen Buddsoddi Strategol |
| **CAP** | Cynllun Gweithredu Cysylltiadau |
| **Cerbydau trydan** | Cerbyd trydan - *cerbydau sy'n cael eu gyrru'n gyfan gwbl gan fodur trydan sy'n cael ei yrru'n gyfan gwbl drwy fatri ac nad yw'n cynhyrchu dim allyriadau o'r bibell wagio* |
| **CPA** | Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson |
| **CSNP** | Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog |
| **CHPs** | Gwres a Phŵer Cyfun |
| **DA** | Deallusrwydd artiffisial |
| **DFES** | Senarios dosbarthu ynni'r dyfodol |
| **DNO** | *Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu - Unrhyw Ddosbarthwr Trydan y mae gofynion Adran B o amodau safonol ei drwydded dosbarthu trydan yn weithredol (boed hynny'n gyfan gwbl neu'n rhannol).* |
| **ED2** | Cyfnod Dosbarthu Trydan Dau - y cyfnod rheoli prisiau dosbarthu trydan presennol, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2028 |
| **ED3** | Cyfnod Dosbarthu Trydan Tri - y cyfnod rheoli prisiau dosbarthu trydan nesaf, sy'n rhedeg o fis Ebrill 2028 i fis Mawrth 2033 |
| **ENA** | Mae'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni yn gorff diwydiant nid-er-elw sy'n cynrychioli'r cwmnïau sy'n gweithredu'r rhwydweithiau ynni yn y DU ac Iwerddon. |
| **EPC** | Tystysgrif Perfformiad Ynni |
| **Esblygiad Hydrogen** | Un o lwybrau Senarios Ynni'r Dyfodol tuag at sero net |

| | |
|---|---|
| **FES** | Senarios Ynni'r Dyfodol |
| **GDN** | Rhwydwaith Dosbarthu Nwy |
| **GSP** | Pwynt Cyflenwi'r Grid - y rhyngwyneb rhwng rhwydweithiau trydan dosbarthu a thrawsyrru |
| **I&C** | Diwydiannol a Masnachol *e.e. y galw am drydan* |
| **kW** | Cilowat (uned bŵer) |
| **LAEP** | Cynlluniau Ynni Ardal Leol |
| **LCT** | Technoleg Carbon Isel: *Dyma'r term torfol am y technolegau canlynol*:<br>*• Pympiau gwres ar gysylltiadau presennol nad ydynt yn arwain at gysylltiad newydd nac wedi'i addasu*<br>*• Gwefrwyr cerbydau trydan, gwefru araf a chyflym, ar gysylltiadau presennol nad ydynt yn arwain at gysylltiad newydd nac wedi'i addasu*<br>*• Systemau Ffotofoltäig wedi'u cysylltu dan Argymhelliad Peirianneg G98*<br>*• Systemau cynhyrchu ynni adnewyddadwy gwasgaredig eraill, heb gynnwys systemau ffotofoltäig, wedi'u cysylltu dan Argymhelliad Peirianyddol G98*<br>*• Systemau cynhyrchu ynni adnewyddadwy gwasgaredig nad ydynt wedi'u cysylltu dan Argymhelliad Peirianneg G98* |
| **LHEES** | Strategaethau Effeithlonrwydd Ynni a Gwres Lleol |
| **Prydain** | Prydain Fawr |
| **REMA** | Adolygiad o Drefniadau'r Farchnad Drydan |
| **RESP(s)** | Cynllun(iau) ynni strategol rhanbarthol |
| **RFI** | Cais am wybodaeth |
| **Rôl RESP** | Rôl cynllunio strategol ynni rhanbarthol NESO (fel y'i diffinnir gan Fframwaith Polisi RESP Ofgem) |

| | |
|---|---|
| **SSEP** | Cynllun Ynni Gofodol Strategol |
| **Tîm RESP** | Tîm cynllunio strategol ynni rhanbarthol NESO ym mhob gwlad a rhanbarth |
| **Trawsnewid Cyfannol** | Un o lwybrau Senarios Ynni'r Dyfodol tuag at sero net |
| **tRESP** | Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol Trosiannol |
| **TW neu TWh** | Terawat (uned bŵer) neu terawat awr (uned ynni) |
| **Ymgysylltu â Thrydan** | Un o lwybrau Senarios Ynni'r Dyfodol tuag at sero net |